Menter Gorllewin Sir Gâr

# Adroddiad Blynyddol Menter Gorllewin Sir Gâr 2019-2020

AMCANION:
Annog a chefnogi datblygiad cymunedol, ieithyddol ac economaidd.











# Rhagair y Cadeirydd

Mae 12 mis arall wedi mynd heibio ac mae'n braf gweld bod y fenter yn mynd o nerth i nerth. Gwelwyd datblygiadau newydd o ran prosiectau, cyllid a staff. Roedd y datblygiadau yma'n golygu ein bod wedi gallu cynnig ystod ehangach o weithgareddau a phrofiadau i drigolion Gorllewin Sir Gar thu hwnt. Fe gewch mwy o fanylion am y gwaith yn yr adroddiad yma.

Mae hi hefyd wedi bod yn flwyddyn o dristwch gyda'r newyddion o farwolaeth GO Jones. Roedd GO yn aelod gwerthfawr a gweithgar iawn o bwyllgor y fenter or cychwyn cyntaf ac mae'r fenter yn ddyledus iawn iddo am ei gyfraniad arbennig . Anaml iawn y byddai'n methu cyfarfod a fo fyddai'r cyntaf i wirfoddoli mewn unrhyw ffordd i helpu. Ni fyddai'r fenter yn y sefyllfa iach y mae hi ynddi heddiw heb ei gyfraniad, mewnbwn ac ymroddiad diflino. Dyn hynaws, gweithgar, llawn hiwmor a mwy na dim dyn da. Braint oedd cael ei adnabod. Mae'n gadael bwlch enfawr ar ei ôl.

Fel pob blwyddyn mae ein dyled ni fel ymddiriedolwyr yn fawr i'r staff. Hoffwn ddiolch iddynt am eu gwaith caled ac ymroddiad. Hoffwn hefyd ddiolch a chydnabod gwaith caled gweddill yr ymddiriedolwyr. Mae pob un yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol er mwyn sicrhau rhediad esmwyth y Fenter.

Diolchwn hefyd i'n prif gyllidwyr sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gâr , Cronfa Loteri Fawr, Gwirfoddoli Cymru, Adran Gwaith a Phensiynau a Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygiad Gwledig.

Ar ddiwedd y flwyddyn daeth y newyddion am y cyfnod clo oherwydd Covid-19. Er yr heriau a fydd yn dod yn sgil hynny rwy'n sicr y bydd y fenter yn parhau i gynnig gwasanaeth bwysig i drigolion Gorllewin Sir Gar ac yn parhau i adeiladau ar lwyddiannau'r 12 mis diwethaf.

Arwel Lloyd

**Staff**

| | |
|---|---|
| Dewi Snelson | Prif Weithredwr |
| Denise Davies | Swyddog Gweinyddol |
| Gwawr Williams | Swyddog Ardaloedd Blaenoriaeth |
| Nia ap Tegwyn | Swyddog Datblygu<br>Uwch Swyddog Iaith (ers Medi '19) |
| Huw Lloyd | Swyddog Maes Digidol |
| Gareth Davies | Swyddog Maes Digidol |
| Meinir Evans | Cydlynydd Profi |
| Ceris Thomas | Swyddog Datblygu |
| Heledd Llwyd | Swyddog Byd Busnes |
| Sian Elin Williams | Swyddog Datblygu (tan Awst '19) |
| Ceris Thomas | Swyddog Datblygu |
| Gwyneth Morris | Swyddog Datblygu |
| Alma Roberts | Swyddog Datblygu (ers Mehefin '19) |
| Sioned Thomas | Swyddog Prosiect Profi |
| Llew Davies | Swyddog Maes Digidol |
| Wendy Rees Burge | Swyddog Maes Digidol |
| Meinir Davies | Swyddog Datblygu Prosiect Digidol Sir Gâr |

**Staff newydd 2019-2020**

Gruff Huws Swyddog Maes Digidol (ers Tachwedd '19)

**Pwyllgor rheoli**

| | |
|---|---|
| Arwel Lloyd | Cadeirydd (ers Hydref '17) |
| Fioled Jones | Is Gadeirydd (ers Hydref '17) |
| Dafydd Davies | Trysorydd |
| Hazel Evans | |
| Ken Davies | |
| Dafydd Hughes | |
| Myfanwy Jones | |
| Luned Thomas | |
| Jean Lewis | |

# Teuluoedd

Mae darpariaeth teuluoedd y Fenter wedi parhau i ddatblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ein bwriad yw creu arfer ymysg teuluoedd i gymdeithasu'n naturiol yn y Gymraeg yn rheolaidd ac mae'r cyfleoedd rydym yn cynnig yn amrywio er mwyn sicrhau ein bod yn apelio at gynifer â phosib o bobl. Enghraifft o'r cyfleoedd rydym yn cynnig yw sesiynau @ysgol i blant a'u rhieni mewn ysgolion cynradd, sesiynau stori rheolaidd, gweithgareddau Nadolig, mabolgampau meithrin a diwrnodau hwyl. Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd 277 o ddigwyddiadau/sesiynau a mwynhaodd dros 19,775 o bobl a phlant weithgareddau cymdeithasol teuluol trwy gyfrwng y Gymraeg.

- "The leader is very good at entertaining children and speaking very and clearly whilst explaining the games. Perfect for children who are less confident.
- "Plant yn mwynhau gweld Ceris ac yn cael hwyl a sbri gyda'r straeon, gemau a teganau."
- "My daughter looks foward to this every week."
- I feel relaxed enough to ask if I'm unsure of something in Welsh & hearing the language reminds me to use it more.
- I've learnt a lot of Welsh from these sessions and so has my daughter. It's helping me learn more.
- Prin iawn yw'r llefydd erbyn hyn lle mae Siôn Corn Cymraeg ar gael i fynd i weld. Diolch felly i'r fenter am y cyfle yma yn Hendygwyn.
- I ni'n lwcus iawn, iawn o gael menter weithgar o fewn ei'n gymuned.
  Mae mynychu sesiynau hwylus i fabis a phlant yn y Gymraeg yn amrysiadwy, ag yn fonws enfawr ei bod am ddim!!
  Mae croeso cynnes a gwên enfawr ar wyneb pob un aelod o staff bob tro,
  ac mae'r plant wrth ei bodd gyda'i storïau a chaneuon egnïol! Diolch amdanynt!!"





Mae dros 19,775 wedi mynychu ac elwa allan o weithgareddau teulu y Fenter eleni.

# Plant a phobl ifanc

Eleni fe wnaethom barhau i gynnal amryw o weithgareddau i blant a phobl ifanc. Mae'n hanfodol eu bod yn cael y cyfle i gymdeithasu a defnyddio'u Cymraeg tu allan i'r dosbarth. Ar gyfer y grŵp targed yma, mae'r ddarpariaeth a'r math o sesiynau yn amrywio er mwyn ateb y galw. Eleni, roedd y sesiynau a digwyddiadau yn cynnwys Cwis Dim, Côr Myrddin, Clwb Drama, Clwb Beicio Mynydd, Clwb Flogio, Gigiau, Fforwm Ieuenctid, Gemau Buarth, Gweithdai Radio a llawer mwy. Mae'n allweddol bod cyfleoedd gwerthfawr o safon yn cael eu trefnu ar gyfer y grŵp targed yma ac mae'r Fenter yn gweithio'n galed i ddenu pobl ifanc a sicrhau eu hymrwymiad i'n gweithgareddau. Rydym wedi cael blwyddyn brysur a gweithgar gyda 321 o sesiynau a digwyddiadau yn cael eu cynnal gyda 8,910 yn mynychu.

- Mae prosiect Cwis Dim Clem wedi bod o fudd i gynorthwyo datblygu sgiliau Cymraeg y disgyblion gan codi Ymwybyddiaeth y disgyblion o materion cyfoes a wybodaeth am Gymru.

- "Mae'n hyfyrd gweld y plant yn defnyddio sgiliau fel onglau a maint siapiau i waith mewn ffordd hwyl gyda rhaglennu scratch. Mae'n wych i weld nhw'n rhannu syniadau a helpu eu gilydd a hyn i gyd trwy cyfrwng y Gymraeg. Hoffwn ni ddiolch i'r fenter am ddim yn unig cyflwyno rhywbeth newydd i'r disgyblion ond i ni fel athrawon, a diolch o galon am y pecyn cyfarwyddiadau er mwyn ein bod yn gallu ehangu a parhau i ddysgu."

- 'Prin iawn yw'r llefydd lle mae pobl ifanc yn gallu cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae Dawns CFFI Capel Iwan sy'n cael ei chefnogi gan Menter yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc ar draws y sir i ddod ynghyd i gymdeithasu trwy cyfrwng y Gymraeg tra'n gwrando ar cerddoriaeth Cymraeg. Dyn ni'n ffodus iawn fel pobl ifanc i gael y cyfle yma i gymdeithasu yn ein mamiaith'

- Diolch yn fawr am ddod â Sali Mali i'r Ysgol heddiw, braf oedd dysgu am diwrnod Shwmae a chlywed stori Sali Mali, croeso mawr i chi ddod eto!

- Mae'r plant wedi mwynhau gwylio a chymryd rhan gyda gweithgareddau menter iaith. Mae wedi bod yn help enfawr yn sicrhau bod ni'n ymarfer ein sgiliau iaith bob dydd. Dw i'n ddiolchgar iawn bod MGSG yn dal i weithion galed i creu adloniant yn ystod yr amser anodd yma. Cadwch ati gyda'r gwaith gwych!!






Mae dros 8.910 o bobl ifanc wedi defnyddio'u Cymraeg trwy fynychu neu gymryd rhan yn nigwyddiadau a gweithgareddau'r Fenter dros y flwyddyn.

# Cymunedau Cymraeg

Mae sicrhau Cymunedau Cymraeg ffyniannus yn rhan greiddiol o waith y Fenter. Mae'n hanfodol bod cyfleoedd Cymraeg yn digwydd yn rheolaidd yn nhrefi a phentrefi ardal y Fenter a'n bod yn cynnig amrywiaeth eang er mwyn apelio at ystod o bobl a bod trigolion yr ardal yn cael dewis. Enghraifft o'n gweithgareddau a digwyddiadau yw, nosweithiau cymdeithasol, sesiynau Yoga a ffitrwydd, cynnal sesiynau rheolaidd anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg, cydlynu llwyfannau perfformio mewn digwyddiadau niferus ar draws yr ardal a threfnu Tudalen Gymraeg a cholofn wythnosol y Carmarthen Journal. Yn ogystal, yn 2019 cynhaliwyd Gŵyl Gŵyl Canol Dre yng Nghaerfyrddin am yr ail waith a denwyd pedair mil o bobl.

Mae'r Fenter yn ffodus o gael dwy swyddfa leol ac mae pobl yr ardal yn ystyried fel pwynt cyswllt cyntaf os ydynt eisiau cymorth neu gyngor ar elfennau yn ymwneud â'r Gymraeg sydd yn dangos y berthynas iach rhwng y Fenter a'r gymuned. Rydym wedi trefnu 138 o weithgareddau yn ystod y flwyddyn ac mae dros 13,336 wedi manteisio a mwynhau'r darpariaeth.

- Great day out with the family, my children are in the Welsh School in town and this was a great place for me to hear Welsh and gain confidance in an informal surrounding.
- 'Noson grêt o chwerthin trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda niferoedd o nosweithiau fel hyn yn gostwng rwyf i ar gŵr yn ddiolchgar bod y Fenter yn trefnu nosweithiau fel hyn yn rheolaidd.'
- "Rwy'n mwynhau mynychu sesiynau ioga yn wythnosol, gan fy mod yn gweld gwerth corfforol. Ond hefyd mae'r ffaith bod y sesiynau yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig, gan fy mod yn teimlo'n gyfforddus. Ac mae'r unigolion sy'n mynychu mor gyfeillgar".
- Diolch i'r fenter am drefnu llwyfan berfformio Gŵyl Fwyd Castell Newydd Emlyn. Mae'r plant yn edrych ymlaen at y cyfle i berfformio o flaen cynulleidfa groesawgar bob blwyddyn. Hyfryd clywed cymaint o Gymraeg yn cael ei defnyddio yn yr ŵyl.








@Mentergsg

@MenterGSG

Menter Gorllewin Sir Gâr

Menter Gorllewin Sir Gâr

Trwy ein gwaith yn y maes hwn, mae dros 13,336 o drigolion wedi cael y cyfle i fynychu a defnyddio'u Cymraeg mewn degau o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn eu cymunedau lleol. Hefyd rydym yn amcangyfrif bod 30,000 o bobl wedi cael cyfleoedd ychwanegol i ddarllen Cymraeg ac i weld newyddion am ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg drwy ein gwaith.

# Cymraeg Byd Busnes

Mae'r prosiect Cymraeg Byd Busnes yn cynnig cefnogaeth a chymorth am ddim i fusnesau ar eu defnydd o'r Gymraeg. Gall hyn gynnwys cyfieithu am ddim, marchnata dwyieithog, cymorth gyda recriwtio ac unrhyw gefnogaeth arall ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg. Mae hwn yn brosiect cenedlaethol, ac mae 12 swyddog 'Cymraeg Byd Busnes' yn gweithio o swyddfeydd y Mentrau Iaith ledled Cymru.
Mae'r swydd yn yr ardal hon wedi ei rhannu rhwng Menter Gorllewin Sir Gâr a Menter Sir Benfro. Yn ystod rhan o'r cyfnod hwn hefyd, roedd y swyddog Cymraeg Byd Busnes hefyd yn gyfrifol am ardal Abertawe yn ystod cyfnod mamolaeth. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gael cyswllt â dros 30 o fusnesau yn ardal y Fenter hon, gan weithio yn 'ddwys' gyda 12 o'r busnesau hynny er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg dros gyfnod penodol o amser. Llwyddwyd hefyd i fynychu 17 o ddigwyddiadau rhwydweithio/busnes yn y Sir er mwyn lledaenu'r neges am y prosiect.

Adborth y busnesau:
"We love to hear customers speaking Welsh in the shop. We know that around 50% of our local customers are Welsh speaking, and we want to make them feel welcome in the shop, as well as raising the profile of our language to visitors. We are very grateful for the support of Heledd and her colleagues at the Welsh for Business team in Carmarthen for helping us to increase the use and visibility of Welsh within our business."

"Ers i ni gael cymorth gyda'n defnydd o'r Gymraeg, rydyn ni'n fwy hyderus i wneud y pethau bychain yn Gymraeg. Mae hefyd wedi gwneud i ni sylweddoli nad oes rhaid cael popeth yn ddwyieithog - rydym yn gwneud ein gorau i gynnwys cymaint o'r Gymraeg ag y gallwn ni."









Trwy ein gwaith yn y maes hwn yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr, mae dros 30 o fusnesau wedi clywed am y prosiect a'r cyfle i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, ac mae 12 o fusnesau'r ardal wedi cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, boed hynny yn arwyddion, bwydlenni, rhannau o wefannau ag ati yn ddwyieithog

# PQASSO | Marc Elusen Ddibynadwy

Yn dilyn targed y Llywodraeth i gwblhau marc safon PQASSO neu Marc Elusen Ddibynadwy fel y'i gelwir nawr, rhyddhaodd y Fenter un aelod o staff am ryw flwyddyn, o Awst 2018, i weithio tuag at y marc safon ac i arwain a chydlynu'r broses. Roedd y broses yn ein gorfodi i edrych ar ein systemau mewnol yn ogystal â'n dogfennaeth i sicrhau ein bod yn rhedeg ac yn cynnal ein hunain yn y ffordd mwyaf effeithlon ac agored. Fel rhan o'r broses, gyflwynom ac addasom nifer o bethau er lles y staff a'r fenter yn gyffredinol. Aeth y fenter trwy'r asesiad yn Mehefin 2019 a chwblhawyd y broses yn llwyddiannus.

MARC ELUSEN DDIBYNADWY
TRUSTED CHARITY MARK
LEFEL LEVEL 1
NCVO

# Cynhwysiad Digidol

Yn ystod 2019-20 parhaodd Y Fenter i weithredu cytundebau uniongyrchol gyda'r Canolfannau Gwaith i weithio gyda'r di-waith i'w cynorthwyo i ddatblygu sgiliau digidol, i greu e-byst a chyfrifon ar-lein, i chwilio am swyddi, i greu CVs ac i'w cynorthwyo i chwilio am a cheisio am swyddi.

Parhawyd i weithredu cytundebau yn Abertawe, Castell Nedd, Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro a tra na adnewyddwyd cytundeb Port Talbot, derbyniwyd cytundebau o'r newydd i ddarparu'r wasanaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf. Ymunodd aelod newydd o staff â'r tîm digidol i weithio yn ardal Rhondda Cynon Taf ac erbyn hyn mae pump aelod o staff yn cael eu cyflogi i weithredu cytundebau'r Canolfannau Gwaith.

Darparwyd sesiynau unigol mewn ardaloedd yn cynnwys Aberteifi, Aberystwyth, Caerfyrddin, Llanelli, Rhydaman, Abertawe, Aberdaugleddau, Doc Penfro, Hwlffordd, Castell Nedd, Pen-y-bont ar Ogwr, Aberdâr, Llantrisant, Pontypridd, Y Porth, Tonypandy a Treorci. Defnyddiwyd cyfleusterau'r llyfrgelloedd yn rhai o'r ardaloedd ar gyfer darparu'r sesiynau, tra cynhaliwyd y sesiynau yn y canolfannau gwaith mewn lleoliadau eraill. Yn ystod y flwyddyn mynychodd bron i 1,500 o unigolion y sesiynau amrywiol ar draws yr holl ardal.

Er i Gynllun Digidol Sir Gâr barhau yn ystod 2019-20, gan i'r aelod staff a'i cyflogwyd i weithio ar y cynllun adael am swydd newydd, bu yna fwlch yn ei weithrediad. Yn ystod Tachwedd 2019 penodwyd aelod newydd o staff i weithio ar y prosiect ac fe'i ail gychwynnwyd. Ariennir Cynllun Digidol Sir Gâr gan gronfa Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020 ac mae'n cynnig pecyn cyflawn o gefnogaeth a gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder digidol i lefel a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth i gael mynediad i wasanaethau. Darparwyd sesiynau digidol i'r cyhoedd mewn lleoliadau amrywiol ar draws Sir Gâr yn cynnwys llyfrgelloedd Caerfyrddin, Castell Newydd Emlyn, Llandeilo a San Clêr, Neuadd yr Eglwys Brechfa, Neuadd yr Ysgol Llanfihangel ar Arth a Neuadd Gymunedol Llanllwni.

Darparwyd sesiynau digidol i gefnogi pobl di-waith mewn deunaw lleoliad ar draws saith sir. Cefnogwyd bron i 1,500 o unigolion.

# Profi

Yn dilyn ymgynghoriad gyda 549 disgybl addaswyd cynllun Profi a gafodd ei ariannu gan y Gronfa Loteri o 2017 - 2019 er mwyn datblygu ac ymateb i anghenion pobl ifanc yr ardal. Cyflwynwyd cais llwyddiannus gwerth o £477,147 i Gronfa Gymunedol y Loteri Cynllun Arian Pawb a'i Le ar gyfer cefnogi sgiliau byd gwaith 1,500 o bobl ifanc. Cychwynnodd y cynllun yn Ionawr 2020 ac mi fydd yn cael ei ddatblygu dros gyfnod o bum mlynedd. Prif amcan cynllun Profi yw datblygu sgiliau byd gwaith pobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn y gweithle.









Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 rydym wedi cynnal amrywiaeth o sesiynau i bobl ifanc sydd wedi amrywio o gyflwyniadau ar y cynllun, sesiynau mentora i gynorthwyo disgyblion i ddod o hyd i leoliadau profiad gwaith. Ynghyd â sesiynau creu CV a pharatoi ar gyfer cyfweliadau a chyflwyniadau interactif ymwybyddiaeth iaith sydd yn cynnwys manteision o'r sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y byd gwaith. Yn ogystal i ni wedi gweithio yn agos gyda nifer o bartneriaid yn cynnwys Gyrfa Cymru. Fe wnaethom rannu cyngor a deunydd ar sgiliau byd gwaith a buddion o'r iaith Gymraeg fel sgil defnyddiol gyda 1,780 o bobl ifanc, yn ystod digwyddiadau Gyrfa Cymru Skills Cymru Sir Gâr a Cheredigion, Ffair Gyrfaoedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Ffair Cyfleoedd Coleg Sir Gâr.

**Comisiynydd y Gymraeg:**




Ar y 6ed o Ragfyr 2019 cafodd Gomisiynydd y Gymraeg Aled Roberts cyfle i ddarganfod sut mae cynllun Profi Menter Gorllewin Sir Gâr yn elwa pobl ifanc yr ardal. Fe wnaeth trydari yn dilyn gweld ffilm fer a chyflwyniad:

"Gwych clywed am wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc yng Ngorllewin Cymru, a'r manteision o siarad Cymraeg yn y gweithle."

Gwnaeth 274 o ddisgyblion cofrestru am gefnogaeth rhaglen Profi gyda 656 yn mynychu sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith, 175 wedi mynychu sesiwn creu CV, 127 wedi derbyn ffug cyfweliad, 341 wedi elwa o sesiynau mentora 312 wedi mynychu profiad gwaith. Yr ydym wedi sicrhau 24 busnes | sefydliad i gynnig gwobr i'r bobl ifanc am fod yn rhan o'r cynllun. Fe wnaethom drafod a rhannu gwybodaeth gyda 52 o fusnesau am werth yr iaith.

## Mentrau Iaith Cymru a Mentrau Sir Gâr

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn rhan o rwydwaith Mentrau Iaith Cymru. Mae 22 o Fentrau Iaith yn weithredol yng Nghymru. Yn genedlaethol, mae'r Mentrau yn cynnal dros 300 o swyddi, yn ogystal â swyddi rhan-amser a chyfleoedd achlysurol eraill ar ben hynny. Mae'r Mentrau yn gweithio gyda thua 1,000 o wirfoddolwyr ac yn cynnal miloedd o weithgareddau bob blwyddyn. Cynhaliwyd noson wobrwyo cyntaf Mentrau Iaith Cymru yn Ionawr i gydnabod gwaith y mentrau. Daeth cynllun Profi y fenter i'r rhestr fer yng nghategori gwaith cymunedol ac enillodd Gŵyl Canol Dre categori cydweithio â phartneriaid.




Mae'r Fenter hefyd yn rhan o Fentrau Sir Gâr sydd yn bartneriaeth rhwng y dair Fenter o fewn y sir sy'n cynnwys MGSG, Menter Bro Dinefwr a Menter Cwm Gwendraeth Elli. Rydym yn cyd-ymgeisio am gyllid er mwyn rhedeg prosiectau sirol penodol ac yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda.

## Ardaloedd Blaenoriaeth

Mae prosiect Ardaloedd Blaenoriaeth yn gweithio mewn wardiau yn cynnwys Ward Llanfihangel-ar-arth, Wardiau Caerfyrddin a Ward Cenarth. Mae heriau ieithyddol y tair ardal yn amrywio a nod y swyddog yw darparu sesiynau cynllunio o fewn partneriaid iaith, sefydliadau cymunedol a'r gymuned leol. Mae'r mewnbwn yn creu cynlluniau gweithredol er mwyn datblygu defnydd y Gymraeg yn yr ardaloedd ac i ddatblygu gweithgarwch a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y wardiau. Mae'r prosiect yn cynnwys Cynllun Academi Arweinyddion sydd yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc yr ardaloedd blaenoriaeth i fagu hyder ac i ddod yn weithredol yn yr ardal a chynyddu gweithgarwch Gymraeg yr ardaloedd.

## Gŵyl Canol Dre

Cynhaliwyd Gŵyl Canol Dre am yr ail dro yn 2019, ym Mharc Myrddin, Caerfyrddin, sef un o brif ddigwyddiadau Cymraeg ardal Caerfyrddin a bu'n llwyddiant enfawr gan ddenu dros 4,000 o ymwelwyr. Roedd yr ŵyl yn ddiwrnod o hwyl ac adloniant ddenodd pobl o Sir Gâr a thu hwnt, wrth gynnwys amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau at ddant pawb, gan gynnwys perfformiadau o gerddoriaeth byw, chwaraeon, llenyddiaeth, celf ac amrywiaeth o weithdai. Roedd yna dau lwyfan yn cynnwys unigolion a bandiau adnabyddus o'r sîn roc Gymraeg yn perfformio ynghyd â pherfformiadau amrywiol gan dros ugain o ysgolion o'r ardal. Roedd yr ŵyl yn cynnig ardal stondinau, roedd yn cynnig ffenest siop i fusnesau lleol i werthu nwyddau a chynnyrch ac i fudiadau lleol i hyrwyddo eu gwasanaethau. Gan fod cyfyngiadau pandemig COVID-19 wedi eu cyflwyno ar ddiwedd Mawrth 2020, o bosib byddai'n effeithio gŵyl 2020.

# Partneriaethau

Mae gan y Fenter gysylltiadau agos gydag ystod eang o grwpiau, mudiadau a sefydliadau ac rydym yn cydweithio gyda:

Mudiad Meithrin
Cymraeg i blant
Menter Cwm Gwendraeth Elli
Menter Iaith Sir Benfro
Mentrau Iaith Cymru
Llywodraeth Cymru
Canolfan Hywel Dda
Busnesau lleol
Papurau Bro
Y Pwerdy, Pont Tyweli
Carmarthen Journal
Canolfannau Teulu
Llyfrgelloedd
Theatr Genedlaethol Cymru
Say Something in Welsh
Gŵyl Fwyd Castell Newydd Emlyn
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Syniadau Mawr Cymru
Plaid Cymru
Tir Coed
Heddlu Dyfed Powys
Coleg Celf Sir Gâr
Breakthro
Future Works
Merched y Wawr
Yr Atom
Menter Dinefwr
Cered
Cyngor Sir Caerfyrddin
Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr
Yr Urdd
Cynghorau Tref a Chymuned
Ysgolion cynradd ac uwchradd
Amgueddfa Wlân Drefach Felindre
AGP (DWP)
Actif Sir Gâr
Yr Egin
Coleg Sir Gâr
Neuadd yr Ysgol, Llanfihangel ar Arth
Gyrfa Cymru
Bwcabus | Cynllun Linc
Cwmni Sgema
Prifysgol Abertawe
MiFuture
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
CAVS / CAVO
Gwirfoddoli Cymru
HUTS
Canolfan Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru
Adran Hyfforddiant Cyngor Sir Ceredigion
Swyddogion Cynllun Datblygu Gwledig Sirol
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Partneriaeth Dysgu Sgiliau Rhanbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru (RLP)
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

Mae'r Fenter yn aelod o'r Grŵp Cefn Gwlad Sirol, y Grŵp Gweithredu Lleol ynghyd â Grŵp Partneriaeth Mentrau Sir Gâr.

**Menter Gorllewin Sir Gâr**
Llawr 1af CCF Cyf, Stryd y Bont, Castell Newydd Emlyn, Sir Gâr, SA38 9DX.
Yr Atom, 18 Stryd Y Brenin, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 1BN.
01239 712934 ● www.mentergorllewinsirgar.cymru
*Cwmni Cyfyngedig drwy warant rhif cofrestredig 5981013 ● Elusen Gofrestredig rhif 1147184*